| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r:** | **Cyngor** |
| **Dyddiad y Cyfarfod:** | **9 Ebrill 2013** |
| **Swyddog Arwain:** | **Rheolwr Gwasanaethau Democratig** |
| **Awdur yr Adroddiad:** | **Rheolwr Gwasanaethau Democratig** |
| **Teitl:** | **Amserlen Pwyllgor 2013 / 14, Adolygiad Blynyddol o Gydbwysedd Gwleidyddol, Penodi Cadeiryddion Pwyllgorau Craffu a Lwfansau i Aelodau Cyfetholedig sydd â Hawliau Pleidleisio** |

---

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

Mae'r adroddiad hwn yn cynnwys gwybodaeth am faterion cysylltiedig â phwyllgorau ac yn gofyn am benderfyniadau yn eu cylch.

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

Mae angen i'r Cyngor gymeradwyo amserlen ar gyfer 2013/14 er mwyn cadarnhau adnoddau a lleoliadau cyfarfod, cyhoeddi'r amserlen a llenwi dyddiadur yr Aelodau. Am fod blwyddyn newydd y cyngor yn dechrau fis nesaf, mae hefyd yn briodol i'r Cyngor ystyried newidiadau yn y cydbwysedd gwleidyddol, trefniadau cadeirio Pwyllgorau Craffu a thaliadau i aelodau cyfetholedig sydd â hawliau pleidleisio.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

Bod y Cyngor Sir:

- (i) yn cymeradwyo'r amserlen o gyfarfodydd ar gyfer 2013 / 2014 (atodiad 1)
- (ii) yn ystyried yr argymhellion i sicrhau bod y pwyllgorau'n wleidyddol gytbwys (atodiad 3)
- (iii) yn nodi unrhyw newidiadau ym mhenodiad cadeiryddion y pwyllgorau craffu y cytunwyd arnynt gan y grwpiau gwleidyddol perthnasol
- (iv) yn pennu mwyafswm priodol y diwrnodau y gellir eu hawlio i bob aelod cyfetholedig sydd â hawliau pleidleisio.

## 4. Manylion yr adroddiad

### <u>4.1 Amserlen Pwyllgorau</u>

Mae blwyddyn newydd y Cyngor yn dechrau â Chyfarfod Blynyddol y Cyngor ym mis Mai, pan ddaw'r amserlen gyfredol o gyfarfodydd pwyllgorau i ben. Ystyriwyd yr amserlen ddrafft ar gyfer cyfarfodydd yn 2013 / 14 (atodiad 1) gan y Pwyllgor Gwasanaethau Democratig ym mis Chwefror. Bydd dyddiadau ychwanegol ar gyfer sesiynau Gwybodaeth i'r Cyngor yn cael eu hychwanegu ar gyfer y cyfnod ar ôl y Gwyliau.

Cynhaliwyd arolwg yn ystod ail ran 2012 i gael gwybod barn cynghorwyr ac aelodau cyfetholedig am bryd a ble yr hoffent gynnal eu cyfarfodydd. Roedd yr arolwg ymhlith gofynion Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 a rhaid i'r Cyngor ystyried canlyniadau'r arolwg wrth gynllunio cyfarfodydd. Mae gwybodaeth am yr amserlen a chrynodeb o ganlyniadau'r arolwg ynghlwm yn atodiad 2.

O ystyried canlyniadau'r arolwg, cadwyd y gymysgedd gyfredol o gyfarfodydd bore yn bennaf, ond rhai pwyllgorau neu baneli'n cyfarfod yn y prynhawn. Mae'r Cyngor yn trefnu ychydig bach o gyfarfodydd gyda'r nos (i rai o'r Grwpiau Ardal Aelod, er enghraifft). Yn aml, bydd cyfarfodydd yn cael eu cynnal yn Neuadd y Sir ond bydd cyfarfodydd hefyd yn cael eu trefnu mewn mannau eraill yn y sir.

## 4.2 Adolygiad Blynyddol o Gydbwysedd Gwleidyddol

Mae gofyn i'r Cyngor ystyried o leiaf bob blwyddyn sut mae aelodaeth ei bwyllgorau'n berthnasol i gydbwysedd gwleidyddol y Grwpiau. Oherwydd newidiadau yn aelodaeth y pwyllgorau a chryfder y grwpiau gwleidyddol, nid yw pob pwyllgor yn wleidyddol gytbwys ar hyn o bryd, a dangosir y rhain yn Atodiad 3.

Gyda'r un nifer o aelodau, mae gan Grwpiau'r Ceidwadwyr a Phlaid Cymru yr un pwysiad cydbwysedd gwleidyddol felly gallai'r naill neu'r llall (ond dim ond un ohonynt) gael ail sedd ar bwyllgor o 8 aelod. Gellir datrys hyn naill ai drwy argaeledd un aelod yn unig o'r Grwpiau hynny i fynd â'r ail sedd honno, neu drwy edrych ar gydbwysedd gwleidyddol cyffredinol y ddau Grŵp dros yr holl bwyllgorau.

Adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn, mae'r argymhellion yn atodiad 3 yn berthnasol.

## 4.3 Penodi Cadeiryddion Pwyllgorau Craffu

Yn ôl yr egwyddorion ar gyfer dyrannu cadeiryddion Pwyllgorau Craffu ym Mesur 2011, bydd y Grwpiau a gynrychiolir yn y Cabinet (Annibynwyr, Ceidwadwyr a Phlaid Cymru) yn gallu hawlio 1 o'r 3 chadeirydd craffu, a'r grwpiau hynny a fydd yn penderfynu ymhlith eu hunain p'un o'u haelodau cymwys a fydd yn gadeirydd. Mae gan y Grŵp Llafur, sef yr unig grŵp heb aelodau ar y Cabinet, yr hawl i benodi 2 o'r cadeiryddion craffu.

Er bod pwyllgorau craffu yn Sir Ddinbych wedi penodi eu cadeiryddion yn flaenorol am flwyddyn, nid yw'r Mesur na'r canllawiau statudol cysylltiedig ychwaith yn gwneud darpariaethau ar gyfer newid neu ailbenodi cadeiryddion pwyllgorau craffu, heblaw bod cyfansoddiad gwleidyddol y Cabinet yn newid neu fod cadair pwyllgor craffu'n wag am ryw reswm. Mae penodi cadeiryddion ar gyfer blwyddyn newydd y cyngor yn fater felly i'r grwpiau gwleidyddol ei ystyried ac i gynghori ynghylch unrhyw newidiadau.

## 4.4 Tâl Aelodau Cyfetholedig

Mae Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol (IRPW) yn rheoleiddio taliadau i aelodau ac aelodau cyfetholedig. Roedd IRPW wedi caniatáu i aelodau cyfetholedig hawlio taliadau am hyd at 10 diwrnod am fynychu cyfarfodydd pwyllgorau y maent yn aelodau â hawliau pleidleisio ohonynt. O fis Ebrill 2013, mae

IRPW wedi penderfynu caniatáu i awdurdodau bennu sawl diwrnod y gellir ei hawlio. Mae hefyd wedi ehangu'r amrywiaeth o ddigwyddiadau y gellid eu hawlio i gynnwys digwyddiadau hyfforddi, cynadleddau a chyn-gyfarfodydd â swyddogion a awdurdodwyd.

Mae gan Sir Ddinbych 11 o aelodau cyfetholedig sydd â hawliau pleidleisio; mae 5 yn eistedd ar y Pwyllgor Safonau, mae 5 yn aelodau cyfetholedig craffu addysg ac mae un yn aelod lleyg o'r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol. Y taliadau yw £198 y dydd (a ddiffinnir fel mwy na 4 awr, neu £99 am hanner diwrnod sef llai na 4 awr) neu £256 / £128 i gadeirydd cyfetholedig.

Am fod yr aelodau cyfetholedig craffu addysg – pryd bynnag yr ystyrir materion addysg – yn aelodau o bob un o'r 3 phwyllgor craffu, byddent yn gymwys, dan y rheolau ar gyfer 2012 / 13, i hawlio hyd at 30 o ddiwrnodau cyfarfod y flwyddyn h.y. mwyafswm o 10 cyfarfod y pwyllgor x 3 phwyllgor = 30 diwrnod. Wrth reswm, nid yw pob cyfarfod craffu'n cynnwys eitem addysg ar yr agenda. Argymhellir bod y Cyngor yn ystyried mwyafswm priodol y diwrnodau y gellir eu hawlio i bob aelod cyfetholedig sydd â hawliau pleidleisio.

Hwyrach y bydd rhaid i aelodau cyfetholedig y Pwyllgor Safonau fynychu cyfarfodydd neu wrandawiadau ychwanegol os byddant yn ofynnol ar gyfer goddefebau fel mater o frys ac mae Cadeirydd ac Is-gadeirydd y Pwyllgor yn mynychu Fforwm Safonau Gogledd Cymru bob chwarter.

## 5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

Mae'r penderfyniadau a'r wybodaeth sy'n codi o'r adroddiad hwn yn ganolog i weithredu'r systemau democratig a'r pwyllgorau sy'n elfennau hanfodol o drefniadau llywodraethu'r Cyngor ac sy'n cyfrannu at flaenoriaethau corfforaethol y Cyngor.

## 6. Beth fydd yn ei gostio a sut bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

Mae costau cynnal system o bwyllgorau'n cael eu cynnwys yn y cyllidebau presennol. Gall gwasanaethau drwy'r Cyngor cyfan gyfrannu at y cyfarfodydd sydd yn yr amserlen, a hynny fel arfer drwy gyfrannu gwybodaeth, adroddiadau ac amser swyddogion.

## 7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb (EqIA) a gynhaliwyd ar y penderfyniad? Dylai'r templed EqIA a gwblhawyd fod ynghlwm wrth yr adroddiad mewn atodiad.

Mae'r amserlen flynyddol o gyfarfodydd yn broses sefydledig ac mae'n bodloni nodau'r Ddeddf Cydraddoldeb. Y prif 'ddefnyddwyr gwasanaeth' yw aelodau'r pwyllgorau a'r swyddogion cefnogi er bod y wasg a'r cyhoedd hefyd yn gallu mynychu'r rhan fwyaf o gyfarfodydd; mae diddordeb unigolion neu grwpiau'n debygol o ddibynnu ar y pwnc dan ystyriaeth.

Cynhaliwyd arolwg diweddar o gynghorwyr am amser a lleoliad cyfarfodydd ac mae'r canlyniadau wedi'u hystyried. Mae'r Cyngor yn defnyddio'r ystafelloedd cyfarfod

mwyaf addas pryd bynnag y bo modd (o ran mynediad, parcio, cyfleusterau toiled, cludiant cyhoeddus).

## 8. Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd â Phwyllgorau Craffu ac eraill?

Bu'r Pwyllgor Gwasanaethau Democratig yn ystyried ac yn nodi amserlen ddrafft y pwyllgorau ym mis Chwefror. Ymgynghorwyd ag ystod eang o swyddogion a fu'n rhoi cymorth a chyngor i'r pwyllgorau a ddangosir yn atodiad 1 ac ymgynghorwyd ag aelodau ynghylch eu prif ddewisiadau ar gyfer amser a lleoliad cyfarfodydd.

## 9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

Nid oes unrhyw gostau ychwanegol yn codi o argymhellion (i)-(iii) fel y nodir yn yr adroddiad. Bydd cynyddu nifer y digwyddiadau y gall aelodau cyfetholedig hawlio tâl amdanynt (argymhelliad iv) yn golygu cost ychwanegol.

## 10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

Byddai methu â chadarnhau amserlen cyfarfodydd newydd a materion eraill cysylltiedig â phwyllgor yn yr adroddiad hwn yn niweidiol i drefniadau llywodraethu'r Cyngor.

## 11. Pŵer i wneud y Penderfyniad

Atodlen 12 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972; Deddf Llywodraeth Leol a Thai 1989; Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011.